# Amcangyfrif o incwm a threuliau Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2003

*Wedi'i gyflwyno i Bwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Adran 93(4) Deddf Llywodraeth Cymru 1998*

**26 Hydref 2001**

# Amcangyfrif o incwm a threuliau Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 March 2003

## Cyflwyniad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

**Cyflwyniad**

1. O dan Adran 93(4) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, mae’n ofynnol i mi gyflwyno amcangyfrif blynyddol o’m hincwm a’m treuliau i Bwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae’r amcangyfrif hwn yn cyfeirio at y flwyddyn ariannol a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2003 a dylid ei ddarllen ochr yn ochr â’r memorandwm ar fy mlaenraglen waith gwerth am arian arfaethedig, y byddaf yn ei thrafod gyda’r Pwyllgor ar 6 Tachwedd 2001.

2. O dan Adran 92(1) Deddf 1998, rwyf wedi trefnu i Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ddarparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol a thechnegol i ategu fy swyddogaethau statudol. Yn yr amcangyfrif hwn, rwyf wedi dosbarthu cost y gwasanaethau hyn o dan y penawdau canlynol:

   - archwiliadau o gyfrifon;
   - archwiliadau gwerth am arian;
   - gwaith archwilio arall; a
   - gwasanaethau proffesiynol a thechnegol a gwasanaethau eraill.

   Cynhwysir esboniad manylach o bob categori yn y nodiadau esboniadol yn dilyn yr Amcangyfrif.

**Y ffactorau sy’n effeithio ar gost gwasanaethau archwilio**

3. Y ffactor allweddol wrth gynnal a gwella safon y gwaith yr wyf yn ei gynhyrchu yw ansawdd y bobl sy’n cyflawni’r aseiniadau archwilio. Felly, mae’n rhaid i Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru allu recriwtio a chadw staff o ansawdd

uchel sydd â'r sgiliau sydd eu hangen i gyflawni fy ngwaith archwilio sy'n gynyddol gymhleth. Mae hyn yn heriol ar adeg pan fo cystadleuaeth gref am gyflogeion o ansawdd uchel ar draws yr economi gyfan, ac yn enwedig yng Nghaerdydd. Er enghraifft, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, bu cynnydd o naw y cant yn y galw am raddedigion gan gyflogwyr yn y sectorau preifat a chyhoeddus (Adolygiad Cyflog IDS Hay Management). Nid cyflog yw'r unig ffactor wrth i bobl ddewis gyrfa a gall gwaith archwilio yn y sector cyhoeddus yng Nghymru gynnig amrywiaeth diddorol o waith i ddarpar gyflogeion. Fodd bynnag, mae cyflog yn parhau i fod yn rhan bwysig o unrhyw becyn ac mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru gadw yn weddol agos o leiaf at ei phrif gystadleuwyr er mwyn gallu recriwtio, ysgogi a chadw pobl o'r ansawdd priodol.

4. Wrth i newid technolegol gyflymu ar draws y sector cyhoeddus, mae'n bwysig y caiff staff Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru eu hyfforddi'n gywir i ddelio â'r datblygiadau newydd. Wrth i faes llywodraeth electronig dyfu, mae angen i'r staff hynny sicrhau bod ganddynt y seilwaith a'r systemau TG i hwyluso a galluogi'r gwaith o archwilio trafodion electronig, cyflwyno gwasanaethau a rhannu gwybodaeth. Mae angen buddsoddi'n barhaus mewn caledwedd, meddalwedd a hyfforddiant i sicrhau y gellir ateb yr heriau hyn.

5. Mae'r ffactorau uchod hefyd yn berthnasol i gyfrifoldebau ehangach y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn y Deyrnas Unedig ac fe'u derbyniwyd gan Gomisiwn Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin mewn perthynas â'r gwaith o ariannu gwaith y Swyddfa ar gyfer Senedd San Steffan.

6. Yng Nghymru, bydd gwariant y Cynulliad yn uwch yn sgîl yr arian Amcan 1 a ddarperir a'r Adolygiad Cynhwysfawr diweddaraf o Wariant. Yn y cyfnod 2001-02 i 2003-04, caiff cyllideb floc flynyddol Cymru ei chynyddu £1.8 biliwn – cynnydd gwirioneddol ar gyfartaledd ar ôl chwyddiant o 5.4 y cant y flwyddyn. Bydd angen archwilio'r gwariant ychwanegol yn sgîl y camau cyllidebol hyn.

7. Caiff gwaith archwilio ychwanegol ei greu hefyd wrth sefydlu cyrff statudol newydd o dan ymbarél y Cynulliad. Yn 2002-03, bydd yn ofynnol i mi gwblhau fy archwiliad o gyfrif cyntaf Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (rhan o ELWa). Bydd hyn yn fwy cymhleth na'r gwaith o archwilio

hen Gyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru gan fod y swyddogaethau a gyflawnwyd yn y gorffennol gan y Cynghorau Hyfforddi a Menter ac nad oeddwn yn eu harchwilio wedi'u trosglwyddo bellach i'r Cyngor Hyfforddiant. Yn y flwyddyn honno, bydd yn ofynnol i mi hefyd archwilio cyfrifon cyntaf Cyngor Gofal Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru. Yn ogystal, bydd yn ofynnol i mi archwilio, am y tro cyntaf, gyfrif "llywodraeth Cymru gyfan", sef cyfuniad o gyfrifon y Cynulliad a'r cyrff cyhoeddus niferus sy'n gysylltiedig ag ef.

8. Bydd angen i mi barhau i ymateb mewn ffordd ystyriol i ohebiaeth gan Aelodau o'r Cynulliad ac eraill, y mae rhan sylweddol ohoni yn gofyn am waith ymchwil ac archwilio a all fod yn dechnegol a chymhleth. Yn ogystal, mae'n bwysig fy mod yn parhau i roi cymorth technegol a phroffesiynol priodol i'r Pwyllgor er mwyn helpu ei Aelodau i gyflawni eu swyddogaethau statudol.

**Archwiliadau gwerth am arian**

9. Bu'r arian a oedd ar gael ar gyfer fy ngwaith gwerth am arian yn gyson mewn termau gwirioneddol ers dwy flynedd (£1,027,000 ar gyfer 2001-02). Mae'r ddarpariaeth hon wedi fy ngalluogi i gyflawni amrywiaeth o astudiaethau ac i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad. Nododd nifer o'r astudiaethau hyn arbedion ariannol sylweddol, a dylent helpu'r rheolwyr i'w sicrhau maes o law.

10. Gyda dwy flynedd lawn o brofiad, mae'n amlwg y bydd angen cynnydd gwirioneddol o ran arian arnaf, wrth i gyfrifoldebau'r Cynulliad gynyddu a dod yn fwy cymhleth (gofynnir am gyfanswm o £1,195,000 ar gyfer 2002-03) er mwyn cyflawni rhaglen gwerth am arian y mae gan y Pwyllgor yr hawl i'w disgwyl. Yn benodol:

- mae'r Pwyllgor wedi rhoi pwys sylweddol ar y gwaith o gyflawni arbedion ariannol sylweddol. Gan mai cyrff archwiliedig sy'n gyfrifol am gyflawni'r arbedion hynny, yn seiliedig ar fy argymhellion neu argymhellion y Pwyllgor, mae angen i mi fuddsoddi rhai adnoddau ychwanegol mewn gwaith dilynol er mwyn darganfod i ba raddau y cyflawnwyd arbedion posibl ac unrhyw waith pellach y mae angen ei gyflawni mewn perthynas ag arbedion posibl nas cyflawnwyd eto;

- mae angen i mi allu ymateb yn gyflym i'r amgylchedd a'r sefyllfa wleidyddol sy'n newid drwy'r amser, er mwyn sicrhau bod gan y Pwyllgor ddeunydd cyfoes i'w ystyried. Er enghraifft, yn ystod y misoedd diwethaf, bu'n rhaid i mi ehangu cwmpas fy adroddiad ar drefniadau'r Cynulliad o ran adeiladau ac ystafelloedd; ac rwyf yn cyflawni gwaith ar gyfer adroddiad ychwanegol y byddaf yn ei lunio ar y trefniadau ar gyfer Bae Caerdydd ar ôl i'r Gorfforaeth Ddatblygu gael ei dirwyn i ben;

- anelaf i ddarparu rhywfaint o ddewis i'r Pwyllgor o ran y pynciau y gall eu hystyried; ac

- mewn meysydd iechyd ac addysg, bydd fy adroddiadau – ac felly yr hyn a gaiff ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio – yn cyflawni'r gwerth ychwanegol mwyaf pan fyddant yn treiddio i faterion ar lefel sefydliad (ysbyty neu goleg fel arfer). Enghreifftiau o hyn yw fy adroddiadau ar esgeulustod clinigol yn y GIG a chaffaeliadau yn y sector addysg bellach. Gall astudiaethau o'r fath yn seiliedig ar sefydliadau ddefnyddio llawer o adnoddau.

**Gwaith archwilio ariannol a gwaith archwilio arall**

11. Mae'n rhaid i mi ddarparu ar gyfer rhywfaint o gynnydd yn lefel y gwaith archwilio ariannol i adlewyrchu'r cynnydd yng ngwariant y Cynulliad, y cyrff newydd a gaiff eu sefydlu o dan ymbarél y Cynulliad a'r cyfrifon newydd (gweler paragraffau 6 a 7 uchod). Bydd llawer o'r cynnydd mewn gwariant yn deillio o arian Ewrop ac arian cyfatebol y DU a ddarperir pan fydd y fframwaith rheoleiddio yn gymhleth a phan fydd angen sicrhau bod y bobl sy'n derbyn grantiau yn defnyddio'r arian at ddibenion priodol. Mewn perthynas â mater cysylltiedig, gofynnir i Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ardystio nifer gynyddol o geisiadau am arian Ewrop a gyflwynir gan gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad. Gyda'i gilydd, mae'r ffactorau hyn yn cynrychioli gwaith archwilio ariannol ychwanegol y bydd angen mwy a adnoddau arno nag sydd ar gael ar hyn o bryd.

**Sail yr amcangyfrif**

12. Caiff cyllideb y Cynulliad ar gyfer 2002-03 ei llunio ar sail adnoddau am y tro cyntaf. Felly, rwyf wedi paratoi'r amcangyfrif hwn ar sail debyg. Fodd bynnag, rwyf hefyd wedi cyfrifo'r gofyniad o ran arian parod net (a ddangosir yn ôl yr amcangyfrif) er mwyn hwyluso cymhariaeth â'r ffigurau ar gyfer 2001-02 y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Archwilio ac er mwyn penderfynu faint o arian y bydd angen i mi ofyn i'r Cynulliad amdano yn ystod y flwyddyn.

**Crynodeb**

13. Er gwaethaf yr angen am arian ychwanegol i fodloni gofynion cynyddol, llwyddais i gyfyngu fy ngofyniad o ran adnoddau net ar gyfer 2002-03 i £2,368 miliwn. Mewn arian parod, mae hyn yn cyfateb â £2.350 miliwn (cynnydd o £205,000 o'i gymharu â 2001-02). Cynhwysir dadansoddiad o'r Amcangyfrif hwn, gyda nodiadau esboniadol, ar y tudalennau canlynol.

**John Bourn**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru*
*Bae Caerdydd*
*Caerdydd*
*CF99 1NA*

*26 Hydref 2001*

# Amcangyfrif o incwm a threuliau Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2003

| | **Amcangyfrif ar sail adnoddau ar gyfer 2002-03 £000** | Darpariaeth 2001-02 (wedi'i hailddatgan) £000 | Cyfeirnod |
|---|---|---|---|
| Archwiliadau o gyfrifon | **1,061** | 987 | 1 |
| Archwiliadau gwerth am arian | **1,195** | 1,027 | 2 |
| Gwaith archwilio arall | **167** | 159 | 3 |
| Gwasanaethau proffesiynol a thechnegol a gwasanaethau eraill | **344** | 327 | 4 |
| **Cyfanswm y treuliau** | **2,767** | 2,500 | |
| Incwm ffioedd | **(399)** | (341) | 5 |
| **ADNODDAU NET Y GOFYNNWYD AMDANYNT** | **2,368** | 2,159 | |
| **Gofyniad o ran arian parod net** | **2,350** | 2,145 | |

Nid yw'r amcangyfrif yn cynnwys cost cyflog yr Archwilydd Cyffredinol, a delir yn uniongyrchol gan y Cynulliad o dan Adran 91 Deddf 1998. Nid yw'r gofyniad o ran arian parod net yn cynnwys chostau a symudiadau tybiannol o ran dyledwyr a chredydwyr. Ailddatganwyd y ffigurau cymharol ar gyfer 2002-03, gan fod yr amcangyfrif gwreiddiol ar gyfer y flwyddyn honno wedi'i baratoi ar sail arian parod.

**Nodiadau esboniadol**

1. Mae’r gost o archwilio cyfrifon yn cwmpasu’r gwaith y mae’n ofynnol i mi ei gyflawni yn unol â’r safonau a osodwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio er mwyn llunio barn ar y cyfrifon a restrir yn Atodiad 1 ar gyfer y flwyddyn gyfrifo 2001-02. Mae hefyd yn cynnwys gwaith cychwynnol ar gyfrifon y flwyddyn ariannol 2002-03, a thasgau archwilio ariannol eraill.

2. Mae gwaith gwerth am arian yn cynnwys cynnal archwiliadau o ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gan gyflwyno adroddiadau i’r Cynulliad. Mae hefyd yn cynnwys paratoi nodiadau briffio ar destunau ad hoc ar gyfer y Pwyllgor, rhoi cyngor i gleientiaid, monitro gweithgareddau’r Cynulliad ar draws yr amrywiaeth lawn o’i swyddogaethau a datblygu fy mlaenraglen gwerth am arian. Cynhwysir rhagor o fanylion am fy ngwaith gwerth am arian hyd yma a’r archwiliadau a gynllunnir ar gyfer y dyfodol mewn y femorandwm a gyflwynwyd ar wahân i’r Pwyllgor Archwilio.

3. Mae gwaith archwilio arall yn cynnwys cost gwaith llywodraethu corfforaethol, ymweliadau arolygu â chyrff sy’n cael arian cyhoeddus nad wyf yn eu harchwilio fy hunan a gwaith archwilio ychwanegol a wnaf mewn perthynas â chyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad ar gais y Cynulliad. Mae hefyd yn cynnwys y gost o lunio fy Adroddiad Cyffredinol blynyddol ar gyfer Cymru.

4. Mae gwasanaethau proffesiynol a thechnegol a gwasanaethau eraill yn cynnwys y cymorth a roddaf yn ei roi i’r Pwyllgor Archwilio ar gyfer sesiynau tystiolaeth a chyngor ar adroddiadau dilynol, y gwaith o baratoi fy amcangyfrif blynyddol, y gwasanaethau cadw cyfrifon sydd eu hangen ar fy swyddfa, cost archwilwyr allanol (a benodir gan y Cynulliad), a chostau gweinyddol eraill a delir wrth redeg fy swyddfa.

5. O dan Adran 93(3) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, caniateir i mi godi tâl am archwilio cyfrifon pob corff cyhoeddus, ac eithrio’r rheini a ddarperir gan y Cynulliad ei hun. Rwyf hefyd yn codi ffi am y gwaith archwilio ariannol arall yr wyf yn ei gyflawni mewn perthynas â chyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad. Mae’r incwm a glustnodwyd y llynedd wedi cynyddu o ganlyniad i ffïoedd am waith newydd yn bennaf.

## Atodiad 1

# Archwiliadau o gyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol 2001-02 i'w cwblhau yn ystod 2002-03

### Cyfrifon a baratoir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Cyfrif Adnoddau

Cadw: Henebion Cymru

Cyfrif llywodraeth Cymru gyfan (cyfrif newydd)

Cyfrif cryno o awdurdodau iechyd Cymru

Cyfrif cryno o ymddiriedolaethau GIG Cymru

Cyfrif cryno o Gronfeydd a ddelir mewn ymddiriedolaeth gan gyrff GIG Cymru

Cyfrif Trethi Busnes Cymru

Cronfa Bensiynau Aelodau'r Cynulliad

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru [9 cyfrif]

### Cyfrifon a baratoir gan Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad

Cyngor Celfyddydau Cymru*****

Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (cyfrif newydd)

Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru

Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Cronfa Bensiynau Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru

Estyn

Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru

Cyngor Chwaraeon Cymru*****

Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru

Bwrdd Croeso Cymru

Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru

Awdurdod Datblygu Cymru

Comisiwn Coedwigaeth Cymru

Menter Coedwigaeth Cymru

Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Bwrdd Cenedlaethol Cymru dros Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd (cyfrif terfynol)

Comisiynydd GIG Cymru

Cyngor Gofal Cymru (cyfrif newydd)

Comisiynydd Plant Cymru (cyfrif newydd)

[23 o gyfrifon]

***** Bydd cyfrifon Dosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn parhau i gael eu harchwilio gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol a'u cyflwyno gerbron y Senedd a'r Cynulliad